



Mabon ap Gwynfor AS
Senedd Cymru

28 Chwefror 2023

Annwyl Mabon,

Diolch am y Cwestiynau Ysgrifenedig (WQ87160 a WQ87165) a gyflwynwyd ar 18 Ionawr yn gofyn:

- i) Sawl hectar o dir a dderbyniwyd ar gyfer plannu yn dilyn cais llwyddiannus Glastir – Creu Coetir o dan gyfnodau ymgeisio 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, a pha gyfran o bob un ohonynt sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar ran ymgeiswyr â chyfeiriadau tu allan i Gymru?' a
- ii) 'Sawl erw o goetir sydd wedi cael eu plannu drwy grantiau Glastir – Creu Coetir?'

Mae nifer yr hectarau o dir a dderbyniwyd ar gyfer plannu o dan gyfnodau ymgeisio cynllun Glastir – Creu Coetir 1–9, a chyfran pob un o'r ardaloedd sy'n gysylltiedig ag ymgeiswyr y mae eu chyfeiriadau y tu allan i Gymru fel y ganlyn:

Cyfnod Glastir – Creu Coetir	Cyfanswm yr hectarau o dir a 'dderbyniwyd ar gyfer plannu'	Cyfran y tir a dderbyniwyd (%) sy'n gysylltiedig ag ymgeiswyr y mae eu 'cyfeiriadau y tu allan i Gymru'
1	106.43	23.14%
2	399.59	32.42%
3	325.65	18.70%
4	262.00	4.29%
5	171.43	1.68%
6	132.58	9.68%
7	128.23	4.12%
8	199.64	0.04%
9	803.60	14.86%
Cyfanswm	2,529.15	14.84%

Ystyrir bod tir 'wedi'i dderbyn ar gyfer plannu' pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi dilysu'r Cynllun Rheoli Coetir ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi contract.

Mae 'cyfeiriadau y tu allan i Gymru' yn ymwneud â gohebiaeth a chyfeiriadau masnachu, ac eithrio ffermydd trawsffiniol ac ymgeiswyr sy'n defnyddio asiant coetir adnabyddus y tu allan i Gymru.

Mae cyfanswm o 2,334.45 hectar o goetir wedi cael ei blannu drwy gynllun Glastir – Creu Coetir. Mae hyn tua 5,766.09 erw. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y plannu newydd sydd wedi cael ei hawlio a'i ddilysu gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd